Cofnodion cyfarfod rithiol 8 Medi 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
LliwenWilliams-Griffith	Nerys John	
Iwan Huws	Cynog Prys	
Casi Roberts	Llŷr Evans	
Nerys John	Elliw Williams	
Emyr Gareth	Iestyn Harris	
Dafydd Huws	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws.	
1.1	Cyfeiriwyd at farwolaeth y diweddar Wil Jones, Cyn Cynghorydd y Cyngor Cymuned. Ar ran y Cyngor Cymuned dywedodd y Cadeirydd bod cydymdeimlad y Cyngor yn cael ei estyn i'w fam Mrs Nancy Jones a Mr Gareth Jones ei frawd.	**CLERC**
1.2	Cynllun Cyfaill – dim wedi newid.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd adroddiad ariannol mis Gorffennaf a mis Awst. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir.	
4.2	Cydnabyddiaeth Cynghorwyr - nid oes llawer o wybodaeth ynglŷn â faint ar gyfartaledd o gynghorwyr sydd yn derbyn cydnabyddiaeth heb wneud cais i bob cyngor unigol. Atgoffwyd y Cynghorwyr bod angen iddynt hysbysu'r Clerc os ydynt am dderbyn y lwfans neu ddefnyddio'r ffurflen tynnu allan os nad ydynt am dderbyn y lwfans.	**CLERC**
4.3	Anfoneb Zoom – cafwyd cadarnhad gan y Cyngor i dalu'r anfoneb o £143.88.	**CLERC**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Gorffennaf a hefyd i gynnwys cofnod ynglŷn â thrwydded defnydd tir yr hen reilffordd.	**CLERC**
5.2	Materion yn Codi - Afon Heulyn, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb hyd yma. Atgoffwyd y Cyngor gan y Cynghorydd Daniel Williams bod crac yn lintel y bont a bod angen gwybod os yw'r strwythur yn ddiogel ynglŷn â chael gwybod os yw'r sylfaen sydd wedi ei erydu yn mynd i ddisodli'r wal. Y Clerc i fynd ar ôl CNC i gael ymateb. Dywedodd y Cynghorydd Emyr Gareth y byddai yn cael enw'r person perthnasol yn CNC iddi.	**CLERC**
5.3	JAPANESE KNOTWEED - Dywedodd y Clerc bod Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd angen manylion lleoliad gan fod eisiau sicrhau bod y lleoliad ddim ar y rhestr sydd ganddo yn barod. Y Cynghorydd Daniel Williams yn barod i ymweld ar y safle gyda'r swyddog.	**DW/CLERC**

5.4	Hysbyseb cam arweiniol bod yr ardal yn "Gated Community" ar gyfer plotiau i godi tai yn y Marina - trafodwyd bod angen dod a'r mater i sylw Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd o hyn gan fod Llwybr yr arfordir ar y lleoliad. Y Clerc i anfon at yr Adran.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	C20/0627/20/DT – 21 Stryd Menai, Y Felinheli LL56 4HX – cais ar gyfer codi balcony un llawr i gefn yr eiddo **– DIM GWRTHWYNEBIAD.**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	CYSGODFANNAU - Adroddwyd bod graffiti wedi ymddangos ar sawl cysgodfan drwy'r pentref. Dywedodd y Cynghorydd Eifion Williams bod wedi trio glanhau'r paent gydag ychydig o lwyddiant ar y ffenestri ar y Cysgodfan ger Cerrig yr Afon. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd gofyn am bris i gontractwr gydag offer perthnasol i ddelio a'r difrod. Cynghorydd Eifion Williams i drefnu ymweliad gyda'r contractwr ar y safle. Mae'r digwyddiad wedi ei nodi a'r heddlu gan y Clerc.	**EW/CLERC**
7.2	TYFIANT - trafodwyd y mater o dyfiant o fewn y pentref yn enwedig Brynffynnon a Penybryn. Mae'r mater wedi ei anfon at Adran Fwrdeistrefol Gwynedd yn barod. Mae tyfiant o dir ger Penybryn yn tyfu i'r palmant a hefyd dros y cysgodfan bws. Y Clerc i Ysgrifennu llythyr "To whom it may concern" er mwyn i 'r Cynghorydd Daniel Williams ei ddanfon i'r tŷ lle mae'r tyfiant yn dod. Y Clerc i anfon at y Swyddog Perthnasol ynglŷn â'r tyfiant o fewn y pentref. Mae tyfiant Brynffynnon yn dod o dir o berchen ADRA, Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i ddod a'r mater i sylw'r cwmni tai. Trafodwyd y mater bod diffyg wedi bod eleni gyda thorri gwair. Mae angen cadarnhad o sawl gwaith mae'r gwair wedi ei dorri. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i gael eglurhad o faint o doriadau sydd wedi bod a faint o'r achlysuron lle mae'r gwair wedi ei gasglu. Bydd angen sicrhau bod y gost i'r Cyngor Cymuned yn adlewyrchu hynny.	
7.3	Mainc ger Steps - Y gwaith heb ei wneud hyd yma. Y Cynghorydd Daniel Williams i gysylltu â'r Contractwr.	**DW**
7.4	Wal Gynnal ger y La Marina – trafodwyd y mater oherwydd nid oedd unrhyw beth wedi digwydd yno ers i'r wal ddymchwel – Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i gael diweddariad.	**CLERC**
7.5	Ffordd o Dinas heibio'r Ganolfan Iechyd - mae lluniau wedi eu hanfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r tyfiant a hefyd y gwaith sydd ar ymyl y ffordd sydd yn difrodi'r ffordd. Y Clerc i anfon ar y swyddog am y diweddariad i'r sefyllfa.	**CLERC**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Japanese Knotweed - gweler eitem 5.4	
8.2	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John bod adolygiad y Llwybrau Cyhoeddus wedi cymryd lle a bod yr adroddiad bron	**CLERC**

	wedi eu cwblhau. Mae tyfiant aruthrol ar y llwybrau a hefyd bod rhai mannau peryg yn bodoli arnynt fel llechi ar ben y wal ar Lwybr Afon Heulyn. Mae argymhellion 2019 heb ei gweithredu hyd yma. Rhai o'r argymhellion yw gosod arwyddion saeth i ddynodi'r llwybr. Cynigwyd bod cyfarfod rhithiol yn cael ei gynnal rhwng aelodau'r Is-bwyllgor a Swyddogion Llwybrau Gyngor Gwynedd. Y Cynghorydd Nerys John i anfon ymlaen yr Adroddiad Blynyddol i'r clerc er mwyn ei rhannu rhwng yr holl aelodau ac i'w anfon at Swyddog Llwybrau Gwynedd. Yna wedi i'r aelodau gael amser i'w ddarllen bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod. Cofnodir bod gwaith i dorri'r tyfiant mewn sawl man yn enwedig o Gapel Menai at Ffordd Gaernarfon a thu chefn i Londis at y Garddfon - Y Clerc i ddod a hyn i sylw Cyngor Gwynedd. Trafodwyd hefyd yr angen i gael 3 toriad i'r llwybrau yn flynyddol. Penderfynwyd byddai'r trydydd toriad ar y llwybrau sydd angen toriad wedi'r adolygiad blynyddol o'r llwybrau gymryd lle. Dywedodd y Clerc bod y Contractwr yn torri (ail doriad) y llwybrau o fewn y mis hwn. Nid yw nifer o doriadau i'r llwybr yn rhan o gontract y contractwr ar hyn o bryd a byddai'r nifer yn cael ei ychwanegu i'r contract pan fydd yn cael ei hadnewyddu. Hyd nes bydd y contract yn cael ei hadnewyddu bydd y Cyngor Cymuned yn wneud cais am 3 toriad y flwyddyn nesaf a bod hyn yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb am 2020-2021. Bydd yr ail doriad yn cael ei wneud diwedd Gorffennaf dechrau Awst ac yna'r trydydd yn ôl yr angen ar y llwybrau tua diwedd mis Medi dechrau mis Hydref. (roedd hyn welliant i'r cynnig torri lle'r oedd angen yn unig ac i'r contractwr hysbysu'r Clerc o'r oriau gwaith).	
8.3	Les Tir hen reilffordd - dywedodd y Clerc ei bod heb dderbyn ymateb Cyngor Gwynedd ynglŷn â symud ymlaen a thrwydded i Mr Glyn Jones. Y Clerc i gysylltu unwaith yn rhagor.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Mae'r gwaith coed sydd yn dal y llechi man wedi pydru, roedd y Cynghorydd Nerys John yn bryderus ynglŷn â'r risg i'r tir lithro i'r ffordd. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr Emyr Gareth, Daniel Williams ac Eifion Williams yn ymweld â'r safle.	**DW/EG/EW**
9.2	Cafwyd cais gan ymgymerwr angladdau ynglŷn â chodi carreg fedd gyda llun ar gefn y garreg. Cyflwynwyd dyluniad i'r Cynghorwyr. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn caniatáu unrhyw lun nag ysgrifen ar gefn unrhyw garreg fedd oherwydd bod angen cadw cymeriad heddychlon a thawel y fynwent a bod angen cynnal gofod bedd unigol o wyneb carreg y bedd at gefn y bedd sydd yng ngwaelod y bedd hwnnw. Y Clerc i newid rheolau'r fynwent a hysbysu'r Ymgymerwr Angladdau.	**CLERC**
9.3	Dywedodd y Clerc ei bod wedi gofyn i'r Contractwr torri gwair am bris i ddelio a'r bin compost of fewn y fynwent. Roedd y Contractwr am ddod yn ôl ati wedi iddo brisio'r gwaith.	**CLERC**

10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cae Chwarae Lan y Môr - dywedodd y Cynghorydd Elliw Williams bod Contractwr gwaith atal llifogydd yn barod i wneud gwaith paratoi ar gyfer gosod yr offer ac o ganlyniad bydd cost y prosiect yn rhatach o £6 mil. Cadarnhawyd bod £15 mil wedi ei glustnodi ar gyfer y gwaith. Bellach mae angen ymweliad safle gyda Chyngor Gwynedd er mwyn sicrhau'r ffordd ymlaen i gwblhau'r gwaith. Y Clerc i drefnu Cyfarfod gyda'r swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd.	**CLERC**
10.2	Prosiect Atal Llifogydd Lan y Môr - mae cynllun diwygiedig o gadw'r wal mor wastad ag sydd yn bosib o ran y cyllid, felly bydd 24m a 18m o lechi a 15m ar bob ochr i'r giatiau yn cock and hen. Bydd angen monitor y mesurau hyn. Bydd ffens y cae chwarae yn cael ei dynnu i ffwrdd ac yn cael ei newid i wal gyda railings ar ei phen. Gobeithir symud polyn y Goeden Nadolig ag offer Scottish Power er mwyn cael dau safle parcio ychwanegol, ar hyn o bryd mae anawsterau cael gaffael ar Scottish Power. Ar hyn o bryd mae'r cynllun wedi galluogi 6 lle parcio efallai un ychwanegol mewn cymhariaeth a cholli 3 lle parcio answyddogol. Cadarnhawyd bod symud offer Scottish Power yn dderbyniol gan y Cyngor Cymuned. Mae Englyn wedi ei dderbyn gan Osian Owen a fydd yn cyd-fynd a gwaith celf plant yr Ysgol Gynradd. Gobeithir rhoddi'r englyn a'r gwaith celf i mewn yn y wal o fewn y mis. Mae angen codi postyn o fewn y gwair ger y Garddfon.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ar lafar i'r Cyngor ar y gwaith sydd yn digwydd i drio ai agor y Neuadd Goffa ar ôl y clo. Mae angen gwneud dogfen diogelwch i ddiogelu defnyddwyr, y lanhawraig ac aelodau'r Cyngor rhag coronafeirws. Bydd y ddogfen yn cynnwys amcanion y Cyngor, asesiad risg a phrosesau angen rheidiol i sicrhau'r amcanion. Mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod yn barod a bydd cyfarfod arall nos Lun nesaf i barhau a'r gwaith. Yn y cyfamser gofynnodd y Cynghorydd i bawb os byddent yn gallu anfon ato gydag unrhyw wybodaeth a fyddai o fudd iddo a'r is-bwyllgor er mwyn cwblhau'r gwaith hwn. Bydd yr is-bwyllgor yn cyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar agor y Neuadd neu beidio.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan. Cytunwyd i dalu £21 yn flynyddol ar gyfer gwella rheolaeth e-byst y Cynghorwyr oddi ar y wefan.	**CLERC**
13.0	**AMRYWIOL**	
	Y Clerc i gysylltu a'r papur Caernarfon & Denbigh i sicrhau bod y wybodaeth am y CYngor yn gywir.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:35	
Llofnod:		**Dyddiad:**